

16.07.2020

Annwyl Riant/gwarcheidwaid,

## Trefniadau Derbyn Canlyniadau Haf 2020

Yn amlwg, oherwydd yr amgylchiadau mae trefniadau dyddiau Canlyniadau TGAU a A2 yn anochel am fod yn wahanol eleni. Isod wele grynodedb o'r trefniadau:

### Canlyniadau A2 Bl.13 – Awst 13<sup>eg</sup> 2020:

- Bydd angen trefnu amser i gasglu canlyniadau trwy'r drefn arferol fel Nosweithiau Rhieni, sef bwcio amser trwy'r pecyn 'Parents Evening' – <https://ysgolglanclwyd.schoolcloud.co.uk/>
- Bydd y system apwyntiadau yn agor **bore Llun, Awst 10<sup>fed</sup>** am 9.00am, bydd slot o 5 munud ar gael i weld staff i gasglu a derbyn y canlyniadau.
- Bydd y cyfnod derbyn canlyniadau yn rhedeg o **09.00 – 10.00** ar y bore lau, **Awst 13<sup>eg</sup>** Gofynnir ichi fod yn brydlon os gwelwch yn dda.
- Mae 4 aelod o staff ar gael ym mhob slot amser - nid oes bwys pa slot a gofrestrir iddo ar adeg benodol.
- Os oes angen trafodaeth bellach am y canlyniadau, ceisiadau UCAS, colegau ac ati bydd cyfle i drafod hyn yn dilyn y sesiwn derbyn - bydd gwybodaeth am y trefniadau hyn ar y diwrnod.
- Oherwydd y cyfyngiadau a'r rheolau yn ymwneud a Covid-19, bydd mesurau pendant megis cadw pellter cymdeithasol, glanweithdra ac ati yn amlwg yn yr adeilad. Gofynnir ichi annog eich plentyn i beidio cofleidio ffrindiau yn ystod y bore yma.

### Canlyniadau UG Bl.12 – Awst 13<sup>eg</sup> 2020:

- Bydd angen trefnu amser i gasglu canlyniadau trwy'r drefn arferol fel Nosweithiau Rhieni, sef bwcio amser trwy'r pecyn 'Parents Evening' – <https://ysgolglanclwyd.schoolcloud.co.uk/>
- Bydd y system apwyntiadau yn agor **bore Llun, Awst 10<sup>fed</sup>** am 9.00am, bydd slot o 5 munud ar gael i weld staff i gasglu a derbyn y canlyniadau.
- Bydd y cyfnod derbyn canlyniadau yn rhedeg o **10.00 – 11.00** ar y bore lau, **Awst 13<sup>eg</sup>** Gofynnir ichi fod yn brydlon os gwelwch yn dda.
- Mae 4 aelod o staff ar gael ym mhob slot amser - nid oes bwys pa slot a gofrestrir iddo ar adeg benodol.
- Os oes angen trafodaeth bellach am y canlyniadau, bydd gwybodaeth am y trefniadau hyn ar y diwrnod.
- Oherwydd y cyfyngiadau a'r rheolau yn ymwneud a Covid-19, bydd mesurau pendant megis cadw pellter cymdeithasol, glanweithdra ac ati yn amlwg yn yr adeilad. Gofynnir ichi annog eich plentyn i beidio cofleidio ffrindiau yn ystod y bore yma.

## Canlyniadau TGAU BI.11 – Awst 20<sup>fed</sup> 2020:


- Bydd angen trefnu amser i gasglu canlyniadau trwy'r drefn arferol fel Nosweithiau Rhieni, sef bwcio amser trwy'r pecyn 'Parents Evening' – <https://ysgolglanclwyd.schoolcloud.co.uk/>
- Bydd y system apwyntiadau yn agor **bore Llun, Awst 17<sup>eg</sup>** am 9.00am, bydd slot o 5 munud ar gael i weld staff i gasglu a derbyn y canlyniadau.
- Bydd y cyfnod derbyn canlyniadau yn rhedeg o **9.00 – 11.00** ar y bore lau, **Awst 20<sup>fed</sup>**. Gofynnir ichi fod yn brydlon os gwelwch yn dda.
- Mae 6 aelod o staff ar gael ym mhob slot amser - nid oes bwys pa slot a gofrestrir iddo ar adeg benodol.
- Os oes angen trafodaeth bellach am y canlyniadau, dychwelyd i'r 6ed, colegau ac ati bydd cyfle i drafod hyn yn dilyn y sesiwn derbyn - bydd gwybodaeth am y trefniadau hyn ar y diwrnod.
- Oherwydd y cyfyngiadau a'r rheolau yn ymwneud a Covid-19, bydd mesurau pendant megis cadw pellter cymdeithasol, glanweithdra ac ati yn amlwg yn yr adeilad. Gofynnir ichi annog eich plentyn i beidio cofleidio ffrindiau yn ystod y bore yma.

## Derbyn canlyniadau gartref:

- Os nad ydych yn gallu dod i mewn ar y dyddiau hyn i dderbyn eich canlyniadau, neu yn dewis peidio am resymau eraill, mi fydd yn dal modd derbyn canlyniadau.
- **Dros y ffôn** – gellir ffonio'r ysgol o 9.00 ymlaen ar y boreau hyn, a derbyn y canlyniadau ar lafar. Mi fyddwch yn cael tystysgrifau swyddogol yn dilyn hyn.
- **Trwy e-bost** – gallwch wneud cais i dderbyn eich canlyniadau trwy e-bost ar fore'r canlyniadau.
- Os am ddefnyddio un o'r ddau ddull yma o dderbyn canlyniadau a fydddech cystal â e-bostio [derbynfa@ysgolglanclwyd.co.uk](mailto:derbynfa@ysgolglanclwyd.co.uk) erbyn diwedd **dydd Gwener, Awst 7<sup>fed</sup> 2020** os gwelwch yn dda.

Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad hefo'r trefniadau uchod.

Yn gywir



John Evans

**Pennaeth Cynorthwyol**